# Sarah Jones

**07990 826050** [Sarahjones@hotmail.com](mailto:Sarahjones@hotmail.com)

[https://uk.linkedin.com/in/sarahjones](https://uk.linkedin.com/in/sarahjones)


Rwyf wedi graddio gyda MA Hanes ac mae gennyf brofiad ym maes cyfathrebu treftadaeth ac ymgysylltu â'r gymuned. Rwyf yn meddu ar wybodaeth weithredol o amgueddfeydd, ynghyd â phrofiad ym maes cynllunio digwyddiadau ac arddangosfeydd a ddatblygwyd trwy ymgymryd â lleoliad gydag Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae gennyf sgiliau cyfathrebu a gweithio'n rhan o dîm rhagorol, ac rwyf bellach am gael swydd ym maes addysg amgueddfeydd.

## Addysg

***MA Hanes,* Prifysgol Caerdydd** **2022 – 2023**

- Modiwlau perthnasol - Ffynonellau a thystiolaeth: Sgiliau ymchwil hanesyddol uwch, treftadaeth, gweithredu cymunedol ac ymgysylltu â'r cyhoedd
- Prosiectau - Traethawd Hir ar effaith gwaith allgymorth mewn ysgolion wrth godi dyheadau disgyblion i astudio hanes ar lefel addysg uwch
- Canlyniad - Rhagoriaeth

***BA Hanes*, Prifysgol Caerdydd** **2019 – 2022**

- Modiwlau perthnasol – Dulliau trafod hanes, trin a thrafod dadleuon hanesyddol, gemau digidol ac arfer hanes
- Canlyniad – 2:1

**Ysgol Uwchradd Stroud a'r chweched dosbarth** **2012 – 2019**

- Safon Uwch: Hanes A, Llenyddiaeth Saesneg A, Cymdeithaseg B, AS Seicoleg B
- TGAU: 9 x A*-C, gan gynnwys Mathemateg, Saesneg a'r Gwyddorau

## Profiad Gwaith Perthnasol

***Cynorthwy-ydd Arddangosfeydd yr Amgueddfa,* Amgueddfa Genedlaethol Cymru Ionawr 2022-Mehefin 2023**

- Helpu i gynllunio prosiectau arddangos, eu monitro ac adrodd amdanynt
- Cyfathrebu'n effeithiol â rhanddeiliaid yr amgueddfa i hwyluso eu cefnogaeth a'u cyfraniadau i arddangosfeydd
- Sicrhau bod gwrthrychau yn yr arddangosfeydd yn cael gofal ac yn cael eu diogelu mewn modd priodol
- Cynorthwyo'r curadur i gynllunio symud gwrthrychau a'u harddangos
- Adolygu arddangosfeydd yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiddorol ac yn addysgiadol i ymwelwyr
- Helpu'r curadur gyda phrosiect adolygu a oedd yn ymchwilio i destun arddangos ar gyfer arddangosfeydd cyfredol

***Hwylusydd Dysgu Gwirfoddol*, Amgueddfa Frenhinol Cymru** **Mehefin - Awst 2021**

- Hwyluso ymweliadau â'r ganolfan ddysgu yn yr amgueddfa gan gynnwys grwpiau ysgol a grwpiau teithio
- Ymgysylltu ag ystod eang o gynulleidfaoedd yn yr arddangosfeydd
- Cynorthwyo ymwelwyr gydag ymholiadau o ran gwrthrychau a'r arddangosfa yn gyffredinol

- Monitro a gwerthuso cynnwys yr arddangosfa a'i addasu yn unol â hynny
- Cwblhau prosiect ymchwil byr i Frwydr Mametz Wood ar gyfer arddangosfa arbennig

## Sgiliau Perthnasol

| | |
|---|---|
| **Cyfathrebu:** | A minnau'n hwylusydd dysgu gwirfoddol, roeddwn yn ymdrin yn rheolaidd ag ymholiadau ynglŷn â gwrthrychau yn y casgliad gan ymwelwyr o bob oedran ac o bob cwr o'r byd. Roedd yn bwysig fy mod yn gwrando ar yr ymwelydd, gan ymateb yn effeithiol i'w gwestiwn a rhoi gwybodaeth a oedd yn glir ac yn ffeithiol. |
| **Gweithio dan bwysau:** | Yn ystod fy lleoliad yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, cefais brosiect ymchwil ar gyfer arddangosfa y bu'n rhaid ei chwblhau cyn i'r arddangosfa gael ei hadeiladu. Roedd yn rhaid i mi flaenoriaethu fy ngwaith yn effeithiol a bod yn drefnus iawn i sicrhau fy mod yn cwblhau'r gwaith erbyn y dyddiad cau. |
| **Mentergarwch:** | Pan oeddwn yn llysgennad myfyrwyr, sylwais fod llawer o ymgeiswyr yn gofyn am y mathau o swyddi y mae ein graddedigion yn gweithio ynddynt. Awgrymais i'm goruchwyliwr y byddai'n dda cael rhai astudiaethau achos i ddangos i ymgeiswyr. Buom yn gweithio gyda'n tîm Dyfodol Myfyrwyr i gynhyrchu taflen gydag astudiaethau achos gan raddedigion SHARE. |
| **Creadigrwydd:** | Pan oeddwn yn gwirfoddoli yn Amgueddfa Frenhinol Cymru, fe wnes i ddylunio llwybr gweithgareddau i blant i'w hannog i ymgysylltu â'r gwrthrychau. Roedd hyn yn cynnwys llyfryn gyda gweithgareddau i'w cwblhau. |

## Profiadau Gwaith Eraill

***Cynorthwy-ydd Gwerthu,* TESCO** **2019 - o hyd**

- Gweini a chynghori cwsmeriaid gyda'u rhestri siopa, gan sicrhau gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid bob amser
- Wedi gweithio ar y tiliau yn cymryd taliadau arian parod a cherdyn
- Rheoli stoc ar lawr y siop ac yn y warws, gan drefnu nwyddau ar arddangosfeydd ac ar silffoedd

***Llysgennad Myfyrwyr,* Prifysgol Caerdydd** **2021-2023**

- Cynrychioli'r adran Hanes, Archaeoleg a Chrefydd yn ystod diwrnodau agored
- Ymgysylltu â darpar fyfyrwyr a'u teuluoedd i rannu fy mhrofiad o astudio ym Mhrifysgol Caerdydd a chynorthwyo ymwelwyr i ddod o hyd i'w ffordd o amgylch y campws

## Diddordebau a chymwyseddau eraill

**Ieithoedd:** Gallu sgwrsio yn Gymraeg, cwrs Cymraeg i Oedolion wedi'i gwblhau hyd at lefel Canolradd
**Chwaraeon:** Aelod o dîm Clwb Pêl-rwyd Prifysgol Caerdydd
**TG:** Gwybodaeth ardderchog o ran pecynnau Microsoft Office, Zoom a WordPress
**Ail-actio hanesyddol:** Aelod o'r Gymdeithas Ail-actio Canoloesol

## Geirdaon ar gael ar gais